

# Crynodeb Gwirio Ansawdd Practis Deintyddol Buckley Dyddiad y gweithgarwch: 13 Hydref 2022

Dyddiad cyhoeddi: 1 Rhagfyr 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Bractis Deintyddol Buckley yn Sir y Fflint fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Practis Deintyddol Buckley yn cynnig triniaethau deintyddol preifat. Ar adeg y gwiriad ansawdd, roedd y tîm yn cynnwys dau ddeintydd, pum nyrs ddeintyddol a hylenydd deintyddol.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull wedi'i deilwra newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae gwiriadau ansawdd yn ein galluogi i ystyried sut mae'r gwasanaethau yn cyrraedd y safonau perthnasol mewn ffordd ystwyth, gan ein galluogi i roi cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithredu'r gwasanaethau mewn ffordd ddiogel. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig a rheolwr y practis ar 13 Hydref 2022 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu gwasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod trefniadau priodol ar waith sy'n cynnal safonau atal a rheoli heintiau ac yn diogelu cleifion, staff ac ymwelwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth?
- Sut rydych yn sicrhau bod cleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed/sy'n wynebu risg) yn gallu cael gafael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel? Yn eich ateb, cyfeiriwch at amgylchedd y practis a'r prosesau sydd ar waith i alluogi cleifion i gael apwyntiadau.
- Sut rydych yn diwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut rydych yn sicrhau bod y practis yn cynnal ansawdd o ran gofal cleifion ac o ran cyflenwi gwasanaethau?
- Sut rydych yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull seiliedig ar hawliau ar waith ym mhob rhan o'r gwasanaeth?

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol y gwnaethom eu hadolygu yn cynnwys yr asesiadau risg / archwiliadau amgylcheddol diweddaraf

Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

### **Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth wedi cynnal asesiadau risg perthnasol a bod ganddo bolisiau addas ar waith er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a llesiant y staff, y cleifion ac ymwelwyr.

Dywedwyd wrthym fod llawer o'r newidiadau a gyflwynwyd oherwydd pandemig COVID-19 yn parhau ar waith. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod niferoedd y cleifion a oedd yn cael eu caniatáu yn yr ystafell aros yn cael eu monitro a bod posteri yn cael eu harddangos er mwyn atgoffa cleifion o'r gofynion ychwanegol oherwydd pandemig COVID-19.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod gwyntyllau echdynnu wedi'u gosod ym mhob deintyddfa a bod marcwyr pellter cymdeithasol yn dal i gael eu harddangos ar y llawr. Roedd hylif diheintio dwylo a masgiau wyneb hefyd ar gael yn ardaloedd y cleifion.

Er mwyn cyfyngu ar y risg o salwch anadlol, dywedodd rheolwr y practis wrthym mai dim ond drwy apwyntiad wedi'i drefnu ymlaen llaw y caiff cleifion y mae angen iddynt weld aelod o'r tîm deintyddol ddod i'r practis. At hynny, roedd cleifion yn cael galwad ffôn 24 awr cyn eu hapwyntiad er mwyn eu sgrinio ar gyfer symptomau salwch anadlol. Ac roeddent yn cael eu sgrinio eto ar ôl iddynt gyrraedd y practis.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei fod wedi cwblhau archwiliad o fynediad i bobl anabl ar gyfer y practis yn ddiweddar er mwyn nodi meysydd roedd angen eu gwella o ran cael mynediad i'r practis. Dywedwyd wrthym fod yr archwiliad hwn wedi nodi bod angen darparu mynediad mwy gwastad i'r practis i'r rhai ag anawsterau symudedd. Cadarnhaodd rheolwr y practis fod mynedfa'r practis wedi'i haddasu er mwyn darparu hyn. At hynny, roedd drysau wedi'u gwneud yn fwy addas i gadeiriau olwyn ac roedd deintyddfa ar gael ar y llawr daear i'r cleifion hynny yr oedd ei hangen arnynt.

Er mwyn cefnogi cleifion awtistig a'r rhai â dementia yn well, roedd y staff wedi cael hyfforddiant penodol i ddarparu cymorth ychwanegol lle y bo angen.

---

Dywedwyd wrthym fod gan y practis gryn nifer o staff a oedd yn siarad pum iaith wahanol gan gynnwys Cymraeg. Roedd hyn yn galluogi bod y cleifion hynny a oedd yn dymuno cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn gallu gwneud hynny.

### **Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Gwnaethom ofyn i'r rheolwr cofrestredig a rheolwr y practis ddisgrifio'r gweithdrefnau ar gyfer archwilio'r cyffuriau a'r cyfarpar brys yn y practis. Dywedwyd wrthym fod yr eitemau hyn yn cael eu harchwilio a'u cofnodi'n rheolaidd. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell, yn unol â'r safonau a nodir gan y Cyngor Dadebru (y DU), y dylid cynnal yr archwiliadau hyn bob wythnos, gyda'r silindr ocsigen a'r diffribiliwr yn cael eu harchwilio bob dydd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cyffuriau a chyfarpar brys yn cael eu harchwilio bob wythnos a bod y silindrau ocsigen brys a'r diffribiliwr yn cael eu harchwilio bob dydd.

Er bod gan y practis aelod o staff a oedd yn siarad Cymraeg, dywedodd rheolwr y practis wrthym nad oeddent yn arddangos nac yn hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw ar y pryd. At hynny, nid oedd y practis yn gofyn i gleifion nodi eu dewis iaith fel mater o drefn. Gallai hyn olygu nad yw'r unigolion hynny sy'n dymuno cyfathrebu yn Gymraeg yn ymwybodol y gallant wneud hynny yn y practis.

Rhaid i reolwr y practis sicrhau'r canlynol:

- Gofynnir i gleifion nodi eu dewis iaith
- Caiff posteri eu harddangos er mwyn annog y cleifion hynny sy'n dymuno cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg i wneud hynny

## **Atal a rheoli heintiau**

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y dogfennau allweddol a welsom roedd:

- Copi o'r archwiliad dihalogi WHTM01-05 diweddaraf a'r cynllun gweithredu ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella
- Polisiâu rheoli heintiau cyffredinol a pholisiâu penodol i COVID-19
- Amserlenni glanhau
- Copïau o gofnodion yr archwiliadau dyddiol ar gyfer pob awtoclaf yn y practis
- Copi o'r polisi glanhau
- Copïau o gofnodion yr archwiliadau dyddiol ar gyfer y bath uwchsain.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

---

---

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod gan bob aelod o'r staff ddealltwriaeth glir o'r canllawiau diweddaraf ar gyfer rheoli cleifion yng Nghymru sydd â salwch anadlol. Dywedwyd wrthym fod y practis yn argraffu pob polisi a chanllaw ac yn gofyn i'r staff lofnodi er mwyn cadarnhau eu bod wedi'u darllen a'u deall. Roeddent yn cael eu cadw wedyn mewn ffolder penodol y gallai'r staff gyfeirio ati, os oeddent am wneud hynny. Dywedwyd wrthym fod rheolwr y practis yn cael gwybodaeth bwysig am newidiadau sydd eu hangen i arferion gwaith drwy e-bost gan Denplan. Roedd newidiadau brys i bolisiâu ac arferion yn cael eu cyfleu drwy ap negeseua symudol yr oedd pob aelod o'r staff yn rhan ohono.

Cadarnhaodd rheolwr y practis fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant mewnol ac allanol ar y dull cywir o wisgo a diosg Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)<sup>1</sup>. Roedd posteri hefyd yn cael eu harddangos er mwyn atgoffa'r staff o'r dull cywir o wisgo a diosg Cyfarpar Diogelu Personol.

Dywedwyd wrthym fod y system apwyntiadau wedi'i hailstrwythuro er mwyn sicrhau bod cyfarpar yn cael ei lanhau'n fwy trylwyr rhwng apwyntiadau. Am nad oedd gan y practis ystafell benodol ar gyfer rhoi triniaethau sy'n cynhyrchu aerosol (AGPs)<sup>2</sup>, dywedwyd wrthym fod llen rwber<sup>3</sup> a dyfeisiau sugno cyfaint uchel yn cael eu defnyddio lle y bo'n bosibl ar gyfer unrhyw driniaethau sy'n cynhyrchu aerosol er mwyn atal y risg o halogi gan aerosol a defnynnau.

Gwelsom fod rhaglen cynnal a chadw ddyddiol ar waith er mwyn sicrhau bod yr awtoclafau<sup>4</sup> a'r glanhawyr uwchsain<sup>5</sup> yn gweithio'n iawn. Roedd gan bob eitem o gyfarpar ei chofnodlyfr ei hun a oedd yn cael ei gwblhau er mwyn dangos bod archwiliadau wedi'u cynnal ar ddechrau a diwedd y dydd.

### **Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Gwnaethom ofyn am dystiolaeth o archwiliad diweddaraf Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM01-05)<sup>6</sup> a chynllun gweithredu ar gyfer unrhyw welliant. Dangosodd y dystiolaeth a roddwyd i ni mai yn 2019 y cwblhawyd yr archwiliad hwn ddiwethaf. Yn ystod yr alwad gwirio ansawdd, dywedodd rheolwr y practis wrthym ei fod wedi cynnal archwiliad

---

<sup>1</sup>Mae "Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)" yn cyfeirio at eitemau megis masgiau, menig, ffedogau a chyfarpar amddiffyn y llygaid a wisgir gan staff clinigol wrth gyflawni gweithgareddau clinigol.

<sup>2</sup> Diffinnir AGPs fel unrhyw driniaeth feddygol neu ofal cleifion sy'n arwain at gynhyrchu gronynnau yn yr awyr - a elwir yn aerosol

<sup>3</sup>Mae "Llen Rwber" yn ddalen rwber hyblyg a roddir dros ddant neu ddannedd er mwyn eu hynysu oddi wrth weddill y danheddiad a meinweoedd y geg.

<sup>4</sup> Mae awtoclaf yn beiriant sy'n defnyddio stêm dan bwysedd i ladd bacteria, feirysau, ffyngau a sborau niweidiol ar eitemau a roddir mewn llestr pwysedd. Caiff yr eitemau eu cynhesu i dymheredd sterileiddio priodol am amser penodol.

<sup>5</sup> Mae glanhawr uwchsain yn defnyddio tonnau sain amleddau uchel a gaiff eu trawsyrru drwy hylif er mwyn sgwrio arwyneb y rhannau sydd yn yr hylif yn lân.

<sup>6</sup> Mae WHMT 0105 (Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 0105) yn rhoi cyngor ar ddiogelwch cleifion wrth ddihalogi offerynnau y gellir eu defnyddio fwy nag unwaith mewn practisau deintyddol gofal sylfaenol. Mae angen archwilio'r prosesau hyn bob blwyddyn.

---

WHTM01-05 yn ddiweddar a'i fod wedi'i gyflwyno i Addysg a Gwella Iechyd Cymru<sup>7</sup> i'w gymeradwyo. Gan na fu'n bosibl i ni adolygu'r dystiolaeth a ddarparwyd gan y ddogfen hon ar adeg y gwiriad ansawdd, byddem yn gofyn i'r practis roi'r dystiolaeth hon i ni ar ôl iddi ddod i law.

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod archwiliad WHTM 01-05 yn cael ei gwblhau bob blwyddyn. Rhaid cyflwyno'r archwiliad hwn i Addysg a Gwella Iechyd Cymru os bydd yn gofyn amdano ynghyd ag unrhyw gynllun gweithredu ar gyfer gwella.

Rhodddwyd rhestrau gwirio i ni er mwyn dangos bod gwaith glanhau wedi'i wneud yn yr ystafelloedd triniaeth. Fodd bynnag, nid oeddent yn cynnwys digon o fanylion i ddangos pa eitemau a gafodd eu glanhau. Felly, byddem yn argymhell bod y rhestrau gwirio hyn yn cynnwys rhestr o'r ardaloedd a'r cyfarpar sydd angen eu glanhau er mwyn osgoi unrhyw ddryswch.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod rhestrau gwirio glanhau yn ddigon manwl er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisi glanhau.

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, holodd AGIC gynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut maent yn rheoli eu gwasanaethau er mwyn helpu i ddarparu gofal iechyd o ansawdd uchel. Gwnaethom ystyried a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod y staff yn addas i gyflawni eu rolau a'u bod wedi cael yr hyfforddiant priodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Ymhlith y dogfennau allweddol a welsom roedd:

- Yr adroddiad blynyddol diweddaraf a baratowyd o dan Reoliad 16(3) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017
- Polisiâu / gweithdrefnau cydsyniad ar sail gwybodaeth
- Cynlluniau parhad busnes
- Cofnodion hyfforddiant gorfodol i bob aelod o'r staff
- Copi o'r daflen wybodaeth ddiweddaraf i gleifion
- Archwiliad Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Cysylltiad Meddygol)
- Archwiliad Cardiau Cofnodion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Y prif ddeintydd ym Mhractis Deintyddol Buckley yw'r rheolwr cofrestredig hefyd. Dywedwyd

---

<sup>7</sup> Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn Awdurdod Iechyd Arbennig o fewn GIG Cymru sy'n eistedd ochr yn ochr ag Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd. Mae'n chwarae rôl arweiniol wrth addysgu, hyfforddi, datblygu a llywio'r gweithlu gofal iechyd yng Nghymru, er mwyn sicrhau gofal o ansawdd uchel i bobl Cymru

---

wrthym fod y rhan fwyaf o'r staff yn y practis wedi bod yn gweithio yno ers cryn amser a'u bod i gyd yn goflogeion rhan-amser. Roedd hyn yn golygu, yn achos gwyliau neu absenoldeb staff, y gallai rotas gael eu llenwi gan aelodau presennol o staff heb fod angen defnyddio nyrsys asiantaeth.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn cynnal cyfarfodydd staff misol rheolaidd yr oedd angen i bob aelod o'r staff fod yn bresennol ynddynt. At hynny, roedd sgrymiau anffurfiol yn cael eu cynnal bob wythnos er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn gallu codi pryder a'u bod yn gwybod am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd.

Rhoddodd y rheolwr cofrestredig ddogfen matrices hyfforddiant gorfodol i ni a oedd yn dangos bod pob aelod o'r aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol a'r hyfforddiant diogelwch diweddaraf. Dywedwyd wrthym fod gan bob pob aelod o'r staff ei ffolder ei hun a oedd yn cael ei gynnal at ddibenion hyfforddiant. Darparwyd hyfforddiant mewn sawl ffordd gan gynnwys wyneb yn wyneb ac ar-lein.

Cawsom dystiolaeth o'r archwiliad cardiau cofnodion diweddaraf ar gyfer y prif ddeintydd yn y practis. Roedd yn dangos bod y safonau o ran cadw cofnodion yn dda yn achos y clinigydd hwn.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod gweithdrefn ar waith ar gyfer rhoi gwybod i AGIC am ddigwyddiadau mewn ffordd amserol<sup>8</sup>. Dywedwyd wrthym, lle y bo angen, fod digwyddiadau yr oedd angen rhoi gwybod amdanynt hefyd yn cael eu trafod ag unrhyw aelodau o'r staff yr effeithiwyd arnynt er mwyn helpu i rannu'r hyn a ddysgwyd.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig hefyd, petai aelod o'r staff yn dangos symptomau salwch anadlol, y byddai'r practis yn gofyn iddo aros i ffwrdd o'r gwaith nes i gadarnhad o ganlyniad negatif i brawf COVID-19 gael ei ddarparu. Lle y bo'n bosibl, roedd staff yn cael eu hannog i weithio gartref, os oeddent yn ddigon iach i wneud hynny.

### **Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Fel rhan o'r gwiriad ansawdd, gwnaethom ofyn i'r practis anfon y datganiad o ddiben a adolygwyd yn fwyaf diweddar atom<sup>9</sup> fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Fodd bynnag, ni chawsom y datganiad hwn mewn pryd i gynnal y gwiriad ansawdd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gyflwyno'r datganiad o ddiben a adolygwyd fwyaf diweddar i AGIC.

Rhoddodd y rheolwr cofrestredig fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r daflen wybodaeth fwyaf

---

<sup>8</sup> Mae rheoliad 25 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i AGIC gael ei hysbysu am ddigwyddiadau penodol yn y practis deintyddol.

<sup>9</sup> Mae "Datganiad o Ddiben" practis yn ddogfen sy'n ofynnol o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 sy'n nodi'r wybodaeth benodol sydd ei hangen ar gyfer cleifion y practis deintyddol.



---

diweddar i gleifion i ni<sup>10</sup>. Fodd bynnag, nid oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau ac roedd angen ei diweddarau. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am y trefniadau ar gyfer ceisio barn cleifion a chyfrifoldebau cleifion yn y practis.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r daflen wybodaeth i gleifion er mwyn cynnwys yr holl wybodaeth fel y'i nodir yn y rheoliadau. Rhaid cyflwyno'r daflen wybodaeth wedi'i diweddarau i AGIC.

Er i ni gael archwiliad cardiau cofnodion y prif ddeintydd, ni chawsom archwiliadau cardiau cofnodion ar gyfer y deintydd arall sy'n gweithio yn y practis na'r hylenydd deintyddol. Felly, ni fu'n bosibl i ni asesu safon y gwaith cadw cofnodion ar gyfer pob clinigydd yn y practis deintyddol a byddem yn gofyn am i'r ddau archwiliad gael eu darparu i ni ynghyd ag unrhyw gynllun gweithredu ar gyfer sicrhau gwelliannau a nodwyd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gyflwyno'r archwiliadau cardiau cofnodion ar gyfer pob clinigydd yn y practis i AGIC, ynghyd ag unrhyw gynllun gweithredu ar gyfer gwella.

Nodwyd gennym nad oedd y staff wedi cael hyfforddiant tân fel rhan o'u rhaglen hyfforddiant gorfodol. Mae'n bwysig bod y staff yn ymwybodol o'r weithdrefn gywir os bydd tân yn y practis er mwyn sicrhau bod y staff, y cleifion ac ymwelwyr yn cael eu diogelu rhag y risg o niwed.

Rhaid i'r staff gael hyfforddiant diogelwch tân bob blwyddyn.

Gwnaethom edrych ar y polisi cydsyniad a roddwyd i ni fel tystiolaeth i ategu'r gwiriad ansawdd. Nodwyd gennym fod y polisi yn cyfeirio at ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i Loegr ac nad yw'n gymwys i Gymru. Felly, mae angen adolygu a diweddarau'r polisi hwn er mwyn bodloni gofynion deddfwriaethol Cymru.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r polisi cydsyniad er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni gofynion deddfwriaethol Cymru.

## Profiad y claf

Fel rhan o'r gwiriad ansawdd hwn, gwnaethom ofyn i'r practis ddsbarthu holiaduron am brofiadau cleifion ar-lein. Cawsom gyfanswm o bum holiadur wedi'u cwblhau.

Ar y cyfan, nododd pob un o'r cleifion a ymatebodd i arolwg ar-lein AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn 'dda' neu'n 'dda iawn'.

---

<sup>10</sup> Mae taflen wybodaeth y practis yn ddogfen y mae'n rhaid ei rhoi i gleifion sy'n nodi manylion y practis deintyddol. Mae hyn yn cynnwys enwau a chymwysterau'r gweithwyr deintyddol proffesiynol sy'n gweithio i'r practis neu yn y practis, manylion cyswllt y practis, sut y caiff adborth cleifion (gan gynnwys cwynion) ei gasglu, rolau a chyfrifoldebau'r claf a chostau triniaeth (lle y bo'n briodol).

---

Pan ofynnwyd iddynt pa mor hawdd oedd trefnu apwyntiad yn y practis, nododd 60% o'r ymatebwyr 'nad oedd yn hawdd iawn' trefnu apwyntiad, yn eu barn nhw.

Nododd pob un o'r ymatebwyr fod y clinigydd wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg yn iach ac wedi edrych ar eu hanes meddygol cyn cynnig unrhyw driniaeth.

Nododd pob un o'r ymatebwyr eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau a oedd ar gael iddynt o ran triniaeth a'u bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch tra roeddent yn y practis.

Nododd bron pob un o'r ymatebwyr a holwyd fod y practis yn lân iawn, gyda phob un o'r cleifion yn dweud bod gweithdrefnau a oedd yn cydymffurfio â gofynion COVID-19 yn amlwg yn ystod eu hymweliad â'r practis.

Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn gwybod sut i gael apwyntiad brys y tu allan i oriau, nodwyd gennym nad oedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr yn ymwybodol o'r weithdrefn i wneud hynny. Felly, byddem yn argymhell bod y practis yn ystyried gwneud darpariaethau deintyddol y tu allan i oriau neu frys yn fwy gweladwy i'r cleifion.

Gwnaethom ofyn i'r cleifion hynny a holwyd a oedd unrhyw beth y gallai'r practis ei wella a chawsom yr ymatebion canlynol:

- *Argaeledd apwyntiadau*

Gwnaethom ofyn i'r cleifion a hoffent gyflwyno sylwadau yn rhoi eu barn ar y gwasanaeth ym Mhractis Deintyddol Buckley a chawsom yr ymatebion canlynol:

- *“Ardderchog”*
- *“Gwasanaeth da iawn, ar y cyfan”*
- *“Maent bob amser yn barod iawn eu cymwynas ac yn effeithlon iawn. Maent yn rhoi gwybod i chi os oes unrhyw newidiadau i apwyntiadau. Maent yn trefnu apwyntiad i chi weld deintydd yn gyflym os yw'n fater o frys.”*

---

## Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella a phryderon uniongyrchol yn ystod ein gwiriad ansawdd y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn:

- Atodiad A: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd

- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn dweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i ymdrin â'r meysydd hyn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Cynllun Gwella Ar Unwaith

Lleoliad: Practis Deintyddol Buckley  
Gwasanaeth: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr  
Dyddiad y gweithgarwch: 13 Hydref 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon/Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oes unrhyw welliannau ar unwaith yn ofynnol.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

## Atodiad B: Cynllun gwella

Lleoliad:	Practis Deintyddol Buckley
Ward/Adran/Gwasanaeth	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Dyddiad y gweithgarwch:	13 Hydref 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y Gwiriad Ansawdd, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i ymdrin â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

<u>Yr hyn sydd angen ei wella</u>	<u>Safon/ Rheoliad</u>	<u>Camau gweithredu gan y gwasanaeth</u>	<u>Swyddog cyfrifol</u>	<u>Amserlen</u>
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cyffuriau a chyfarpar brys yn cael eu harchwilio bob wythnos a bod y silindrau ocsigen brys a'r diffribiliwr yn cael eu harchwilio bod dydd.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau Rheol. 31(3b) Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Mae'r rheolwr cofrestredig wedi diwygio rhestr wirio ddyddiol/wythnosol y dderbynfa er mwyn sicrhau bod y silindrau ocsigen a batri'r diffibriliwr yn cael eu harchwilio bob dydd a bod dyddiad dod i ben cyffuriau brys a'r stoc yn cael eu monitro bob wythnos. Bydd y person â chyfrifoldeb ar y diwrnod yn llofnodi ac yn dyddio'r rhestr bob tro y cwblheir archwiliad.	Tudor Aldescu	Wedi'i gwblhau 16.11.2022

<p>Rhaid i reolwr y practis sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gofynnir i gleifion nodi eu dewis iaith</li> <li>• Caiff posteri eu harddangos er mwyn annog y cleifion hynny sy'n dymuno cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg i wneud hynny</li> </ul>	<p>3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol</p> <p>Rheol. 13(1a) Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017</p>	<p>Lluniwyd poster ac mae'n cael ei arddangos yn y dderbynfa a dywedwyd wrth y staff i ofyn ac annog cleifion i ddefnyddio'r Gymraeg os byddant yn dymuno gwneud hynny.</p>	<p>Tudor Aldescu</p>	<p>Wedi'i gwblhau 16.11.2022</p>
<p>Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod archwiliad WHTM01-05 yn cael ei gynnal bob blwyddyn. Rhaid cyflwyno'r archwiliad hwn i Addysg a Gwella Iechyd Cymru os bydd yn gofyn amdano ynghyd ag unrhyw gynllun gweithredu ar gyfer gwella.</p>	<p>2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi</p> <p>Rheol. 13(3b) Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017</p>	<p>Mae rheolwr y practis yn cwblhau ac yn cyflwyno'r WHTM01-05 bob blwyddyn a chedwir copi yn y practis fydd ar gael os bydd AGIC yn gofyn amdano.</p>	<p>Tudor Aldescu</p>	<p>Wedi'i gwblhau 02.07.2022</p>
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod rhestrau gwirio glanhau yn ddigon manwl er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisi glanhau.</p>	<p>2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi</p> <p>Rheol. 13(6) Rheoliadau Deintyddiaeth</p>	<p>Yn dilyn arolygiad AGIC, mae'r rhestrau gwirio glanhau wedi'u diweddarau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisi glanhau. Mae copïau ar gael ar gais. Mae'r rheolwr cofrestredig yn edrych ar y rhain bob wythnos.</p>	<p>Tudor Aldescu</p>	<p>Wedi'i gwblhau 01.11.2022</p>

	Breifat (Cymru) 2017			
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gyflwyno'r datganiad o ddiben a adolygwyd fwyaf diweddar i AGIC.	Rheol. 5(1-2) Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Mae'r datganiad o ddiben mwyaf diweddar eisoes wedi'i gyflwyno i AGIC ar ôl yr arolygiad	Tudor Aldescu	Wedi'i gwblhau 01.11.2022
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r daflen wybodaeth i gleifion er mwyn cynnwys yr holl wybodaeth fel y'i nodir yn y rheoliadau. Rhaid cyflwyno'r daflen wybodaeth wedi'i diweddarau i AGIC.	Rheol. 6(2) & 7(a) Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Mae taflen wybodaeth newydd i gleifion wedi'i llunio i gynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol yn y rheoliadau	Tudor Aldescu	I'w anfon i AGIC cyn 31.12.2022
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gyflwyno'r archwiliadau cardia cofnodion ar gyfer pob clinigydd yn y practis i AGIC, ynghyd ag unrhyw gynllun gweithredu ar gyfer gwella.	3.5 Cadw Cofnodion Rheol. 20 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Mae pob clinigydd bellach wedi cwblhau archwiliad cardia cofnodion	Tudor Aldescu	Wedi'i gwblhau 01.11.2022

<p><b>Rhaid i'r staff gael hyfforddiant diogelwch tân bob blwyddyn.</b></p>	<p>2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch</p> <p>Rheol. 22(4c) Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017</p>	<p>Mae'r rheolwr cofrestredig eisoes wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelwch tân.</p> <p>Bydd gweddill y staff yn cwblhau'r un cwrs</p>	<p>Tudor Aldescu</p>	<p>Wedi'i gwblhau 16.11.2022</p> <p>I'w gwblhau cyn 01.02.2023</p>
<p><b>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r polisi cydsyniad er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni gofynion deddfwriaethol Cymru.</b></p>	<p>4.2 Gwybodaeth i gleifion</p> <p>Rheol. 8(j) Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017</p>	<p>Mae'r rheolwr cofrestredig wedi adolygu a diweddarau'r polisi cydsyniad er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni gofynion deddfwriaethol Cymru</p>	<p>Tudor Aldescu</p>	<p>Wedi'i gwblhau 01.11.2022</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):** TUDOR ALDESCU

**Teitl swydd:** Prif Ddeintydd/Rheolwr Cofrestredig



**Dyddiad: 17.11.2022**